

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddona.
A gynhaliwyd ar Nos Fercher Mawrth 26ain - 2014
am 7.30 o'r gloch.

- 1. Presennol** - Cynghorwyr Myrddin Roberts (Cadeirydd, MR), Gill Cheverton (Is – Gadeirydd (GC), Geraint Parry (Clerc), Lewis Davies(LD), Carwyn Jones(CJ), Alwena Roberts (AW), Rhian Hughes (RH), Maldwyn Williams (MW), Dafydd Pritchard (DP), Paul Gash (PG)
Croesawyd Paul Gash fel Cynghorydd newydd.
Agorwyd y cyfarfod gan fynd yn syth i bwynt 9.
- 2. Ymddiheuriadau** - Alwyn Rowlands
- 3. Cofnodion**
Derbyniwyd cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 fed o Chwefror fel rhai cywir gan Cyng. M Williams, eilio gan Cyng. R Hughes.
- 4. Materion yn codi o'r Cofnodion**
 - 4.1 Clawdd ar Mynydd Crafoed** - dim cwyn wedi ei dderbyn ynghlyn a hawlio'r tir comin, oherwydd bod aelod o'r cyhoedd yn cynnal a chadw ardal yma.
 - 4.2 Wefan i'r Cyngor Cymuned** - cofnodion Hydref, Tachwedd a Rhagfyr nawr ar y wefan. Linc ar yr agenda. Angen gosod cyswllt "Facebook" i Cymuned Llanddona ar ein gwefan, a hefyd hysbysu'r drwy roi hysbyseb yn yr hysbysfwrdd ac yn y papur "Puffin"
 - 4.3 Fynwent Llanddona** - rhaglen wedi bod ar y teledu. Dilyn newyddion yn y papur newydd, MR yn teimlo bod y Cyngor Sir yn gwneud pethau nawr ddylent fod wedi gwneud oesoedd yn ôl. CJ yn gofyn pam nad yw'r Eglwys yn helpu gyda'r mater hwn? Oes gan Eglwys Cymru cyfrifoldeb o hyd i dir claddu? LD - fasa'n syniad gofyn i'r Esgob ym Mangor. LD i drafod hyn gyda'r Cyngor Sir.
 - 4.4 Llwybr Tai Bach** - Clerc yn darllen e-bost a dderbyniwyd gan Edward Evans oddiwrth Trefor H Jones (swyddog Cyngor Sir) wrth ymddiheuro am yr oedi, ond bod yr adroddiad mewn llaw ac yn mynd i ganolbwyntio ar lwybr Tai Bach ar ôl 18/03/14.
Oherwydd yr oedi mae Mr Evans yn ystyried gwneud cwyn ffurfiol nawr. Penderfynwyd aros tan y cyfarfod nesaf i weld os oes ymateb ar gael.
 - 4.5 Difrod ar y Traeth** - lôn traeth wedi ei glirio. MW - mae rhywun wedi adeiladu bwnd ger Storws, wrth ddefnyddio'r cerrig ac ati oedd wedi ei olchi i fyny gan y gwyntoedd cryf diweddar. Hefyd mae pridd wedi ei cario yna.
- 5. Adroddiad gan y Cynghorwyr**

LD - Grant Cymunedol i Landdona, tuag at ffensio darn o dir yng nghefn Bryn Felin a chodi man eistedd. Yn anffodus oedd nifer o bryderon wedi cael ei godi gan bobl leol, ac mae'r grant wedi cael ei dynnu'n ôl ar hyn o bryd.

CJ - Ysgol Llanddona, dim newyddion ymhellach. Dyddiad i wneud penderfyniad yn dod i ben 19/03/2014. Wedi ysgrifennu at Dr G Jones, lle maent yn disgwyl penderfyniad yn fuan iawn. Clerc i anfon llythyr at Huw Lewis, mynegi ein pryderon.

CJ - wedi ymuno ar ail cyfarfod i drafod Gwasanaethau Cymdeithasol. Awgrymwyd bod y grŵp hwn yn dod i drafod y materion gyda phob cynghorau cymuned leol.

LD - Tir Comin o gylch yr Ysgol - Gerallt Jones wedi ysgrifennu at y Cyngor Sir gan ofyn iddynt gofrestru tir yn enw'r Cyngor Cymuned.
Ddarau Menter Môn prynu'r holl dir cyffredin yn Llanddona oddi wrth y Brifysgol Cymru. Cyn trosglwyddo i'r Cyngor Cymuned, hysbysodd y Cyngor Sir eu bod yn berchen ar dir o amgylch yr Ysgol. Mae'r swyddfa gofrestru tir wedi gwrthod eu hymgais i gofrestru tir hwn ar y sail nad oedd ganddynt ddigon o dystiolaeth o berchenogaeth, er ei fod eisoes wedi ei gofrestru i Menter Môn. Clerc i gysylltu a MM.

LD - oherwydd materion tebyg mewn cymunedau eraill, wedi ysgrifennu at y Cyngor Sir yn mynegi anfodlonrwydd gyda gosod adran AHNE yn yr adran cynllunio. Cyngor Sir wedi gofyn i swyddogion perthnasol gyflwyno sylwadau. Un Llais hefyd yn codi cwestiynau gyda'r perthynas yma.

LD - tyllau ar y ffyrdd wedi cael ei atgyweirio, a lôn ger Bryn Bela wedi ei ail-wynebu. Cyllideb ar ôl oherwydd diffyg graeanu a gynhaliwyd y gaeaf yma.
- 6. Datgan Diddordeb**
Cyng. L Davies, ar gais 22C215.

7. Ceisiadau Cynllunio

- 22C215 - Cais llawn ar gyfer codi caban ar Safle Gwasanaeth Gronfa, Llanddona - dim gwrthwynebiad.

Er Gwybodaeth

- Cais am faterion a gaswyd yn ôl ar gyfer codi annedd a modurdy ar dir ger Glan Gors, Llanddona - wedi ei ganiatáu.

MR wedi gofyn i'r Clerc cael presenoldeb o adran gynllunio yn ein cyfarfod nesaf er mwyn cael trafod materion cynllunio lleol. Mewn ymateb, nid oedd presenoldeb ar gael yn y cyfarfod yma oherwydd y materion eang y gofynnwyd, bydd angen mwy o amser i gasglu'r wybodaeth. Clerc i anfon dyddiadau cyfarfod mis Ebrill a Mai ymlaen i'r adran cynllunio.

8. Maes Parcio Ponc y Felin

LD / CJ - nid yw'r Cyngor Sir yn gallu rhoi i mewn am grantiau i greu man parcio, ond yn cynnig gosod llinellau ar y ffordd, lle fydd bosib creu lle i 16 o geir gydag un lle anabl.

MR - mae mater iechyd a diogelwch yn fan hyn, oherwydd y ffordd mae'r ceir yn parcio.

9. Tir Comin - gan Simon Hunt, Swyddog Coed Cymru

Simon yn egluro fod wedi cysylltu â Gerallt Jones (Menter Môn) a Efan Miller (Swyddog AoH) i roi cais ar y cyd gyda Menter Môn, Coed Cymru ar Cyngor Cymuned am grant "Tidy Towns", gyda dyddiad cau 1/05/14. Gallai hyn gael ei defnyddio i ddatrys y mater o'r sbwriel a'r helyg sy'n tresmasu ar lwybrau ac ati.

Opsiwn arall ydi trio am grant trwy'r Rheoli Coetiroedd Glastir. Gallai hyn gael ei defnyddio i bori tir comin y Rhos, ond y byddai rhaid datrys hawliau cominwyr. Mae gan y tir yma statws SSI a allai hyn cynnig cyllid trwy Adnoddau Naturiol Cymru, ond fod elfen o arian cyfatebol ei angen. Mae Prosiect Pori Ynys Môn yn un ffordd o reoli tir prysg. Nid oedd y lluniau a gyflwynwyd yn gywir oherwydd eu bod wedi cael ei digido. Simon i gael copïau o'r tir comin. Diolchodd y Cadeirydd Simon am ei gyngor.

Cler i anfon llythyr o gefnogaeth.

10. Cyfrifon - cytunwyd i dalu:-

- Hurio Ystafell Ysgol, Mawrth - £20
- Aelodaeth Un Llais - £93

Incwm

- Cyngor Sir, cynnal a chadw llwybrau - £1,374.06

11. Gohebiaeth

Llythyr - o ddiolch gan Capel Peniel am y rhodd.

Llythyr - Eglwys Llaniestyn

Apêl - NSPCC

Apêl - Children's cancer trust

Llythyr - o ddiolch gan Rhun ap Iorwerth

Llythyr - curo'r ffiniau 26/05/14, Cyngor Dref Biwmares

e-bost - sesiwn briffio a chyfraniadau budd cymunedol, Cyngor Sir 10/04/14, am 7yh

e-bost - gofrestru tir comin, Gerallt Jones, Menter Môn

e-bost - Llwybr Tai Bach, Edward Evans

e-bost - apêl côr Llanddona, Edward Evans

Llythyr - apêl, gosod defibrillator, Eglwys Llanddona

Llythyr - cyfarfod 27/03/14, Un Llais

Llythyr - Llwybrau 15 a 22, Cyngor Sir

Llythyr - ad daliad gynnal a chadw hawliau tramwy, Cyngor Sir

Llythyr - Llwybr 57, Cyngor Sir

Llythyr - hyfforddiant cod ymddygiad, Cyngor Sir

Llythyr - tir comin CYM131257 a 369511, swyddfa gofrestru Tir

12. UFA:

11.1 Apêl gan Eglwys Llanddona am rhodd i osod Defibrillator yn nghyntedd yr adeilad. Oherwydd yr ansicrwydd os bydd y cyfarpar hwn angen trydan, y gallai fod yn uned symudol gyda phŵer ei hun. Penderfynwyd cael fwy o wybodaeth ar yr achos.

11.2 Cais am gefnogaeth ariannol gan Côr Cymuned Llanddona i bwrcasu piano a ategolion, amcan cyfrif oddeutu £600. Penderfynwyd cefnogi'r cais gan ofyn iddynt anfon gwybodaeth i gadarnhau a'r rheolau'r Cyngor Cymuned.

- 11.3 Cau cyfrif maes chwarae – Clerc i weithredu.
- 11.4 Llythyr Mike Hariman, Clerc i anfon y linc i'r cynghorwyr.
- 11.4 Gorchymyn gan y Cyngor Sir 26/02/14 sydd yn gwyro llwybr troed 15 ger Ffynnon Oer sydd yn rhedeg tuag at Erwau'r Môr a llwybr 22.
- 11.5 Cyngor Sir yn cynnig gwneud gorchmynion i gau rhan o lwybr 57 (Tan Dinas) oherwydd bod y darn yma yn hygyrch yn sgil chwarelu, ac i greu llwybr yn ei le. Er mwyn cael fwy o amser i wneud penderfyniad Clerc i ofyn i'r Cyngor Sir am estyniad i'r dyddiad ymateb ac anfon copi o'r cynllun i'r Cynghorwyr. I drafod ymhellach
- 11.6 Adroddwyd bod swing plant bach yn iard yr ysgol wedi torri. Clerc wedi derbyn 3 dyfynbris am y gwaith, sef £527, £515 a £499. Penderfynwyd derbyn pris £499, Clerc i weithredu.

13. Dyddiad cyfarfod nesaf:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ei gyfraniad.

Daeth y cyfarfod i derfyn am 10.05 o'r gloch.

Penderfynwyd Cyfarfod nesaf 16/04/14 am 7.30.

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad